



Amcan Llesiant 13

Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur).

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
A	Byddwn yn datblygu'r seilwaith priffyrdd i gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Adfywio	
1	Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith trafndiaeth strategol er mwyn cefnogi datblygu economaidd. a. Byddwn yn cysylltu'r datblygiadau sydd ynghlwm wrth Gam 2 o Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands. <i>MF5-2 a MF5-3</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn sefydlu Sir Gaerfyrddin fel Canolbwynt Beicio Cymru drwy ddarparu prosiectau allweddol megis Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. <i>MF5-1</i>	Mawrth 2021
3	Byddwn yn gweithredu'r Strategaeth Feicio ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn canolbwyntio ar 5 thema strategol allweddol. 1-Addysgu, Datblygu a Hyfforddiant; 2-Seilwaith a Chyfleusterau; 3-Marchnata a Brandio; 4 – Twristiaeth a 5 – Digwyddiadau. Byddwn yn gweithio'n agos i ddatblygu'r 4 camp â ffocws, sef: Beicio, Gweithgareddau Dŵr, Athletau a Triathlon. <i>(Rhan o MF5-1- Felodrom Caerfyrddin) (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 8)</i>	Mawrth 2023
4	Byddwn yn datblygu llwybrau teithio llesol ar gyfer aneddiadau allweddol.	Mawrth 2020
5	Rydym wedi cwblhau ein Cynllun Cynnal a Chadw Asedau Priffyrdd a byddwn yn datblygu'r Polisi Cynnal a Chadw Priffyrdd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun.	Mawrth 2020
6	Byddwn yn cyflwyno'r rhaglen buddsoddi cyfalaf 3 blynedd ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd yn unol â'r adnoddau fydd ar gael. <i>MF5-8</i>	Mawrth 2020
7	Byddwn yn cyflwyno'r rhaglen buddsoddi cyfalaf 3 blynedd ar gyfer cryfhau pontydd ar briffyrdd a chodi rhai newydd yn unol â'r adnoddau fydd ar gael.	Mawrth 2021
8	Byddwn yn gweithio tuag at wella integreiddiad y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd yn Sir Gaerfyrddin, er mwyn diwallu anghenion ein trigolion yn well. <i>MF5-6</i>	Mawrth 2021
9	Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gael ffordd osgoi yn Llandeilo er mwyn gwella ansawdd aer a diogelwch yn nhref Llandeilo. <i>MF5-4</i>	Mawrth 2021
10	Byddwn yn ystyried dichonoldeb datblygu llefydd i lorïau barcio dros nos yn y sir. <i>MF5-9</i>	Mawrth 2022
11	Byddwn yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i weithredu'r rhaglen 'buddsoddi i arbed' i newid goleuadau stryd y sir yn rhai LED.	Mawrth 2020
12	% y ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael (<i>PAM/020</i>) <i>(Canlyniad 2018/19 - 5.2%)</i>	5.0%
13	% y ffyrdd dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael (<i>PAM/022</i>) <i>(Canlyniad 2018/19 - 4.2%)</i>	5.0%
14	% y ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael (<i>PAM/022</i>) <i>(Canlyniad 2018/19 - 12.5%)</i>	14.0%

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
15	Byddwn yn lleihau i'r graddau mwyaf posibl ganran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/012) (Canlyniad 2018/19 - 10.1%)	11.2%
B	Byddwn yn parhau â'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig llwyddiannus	
1	Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaid Awdurdod Lleol Rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Metro i Dde a Gorllewin Cymru. MF5-6	Mawrth 2022
C	Ein bwriad fydd ailddylunio ein rhwydwaith cludiant ysgol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Addysg	
1	Byddwn yn parhau i gefnogi darparu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailgynllunio rhwydweithiau er mwyn hwyluso symudiad disgyblion fel y nodir yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol.	Mawrth 2020
D	Byddwn yn parhau i gefnogi trafndiaeth gymunedol.	
1	Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a Chynghorau Sir Ceredigion a Phenfro a Llywodraeth Cymru i helpu i gynnal gwasanaethau trafndiaeth integredig Bwcabus/LINC a gwasanaethau strategol allweddol. (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2020
E	Byddwn yn cyflawni ein hamcanion a bennwyd gennym yn ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd.	
1	Byddwn yn lloio Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid er mwyn gallu datblygu Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan sicrhau bod mwy o gymunedau'n gallu cael palmentydd a llwybrau cerdded newydd. MF5-7	Mawrth 2020
2	Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 (5.5.2.21) (Cyhoeddir canlyniadau 2018/19 ym mis Mehefin)	75
3	Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y gyrwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 25% erbyn 2020 (5.5.2.22) (Cyhoeddir canlyniadau 2018/19 ym mis Mehefin)	14
4	Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl ifanc (rhwng 16-24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 (5.5.2.23) (Cyhoeddir canlyniadau 2018/19 ym mis Mehefin)	21
F	Moderneiddio ein fflyd cerbydau a'n seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau trydan	
1	Byddwn yn cwblhau ein buddsoddiad mewn cerbydau newydd yn ystod y flwyddyn, yn unol â'n rhaglen adnewyddu'r fflyd strategol. MF5-5	Mawrth 2020
2	Byddwn yn gwella'r seilwaith ar gyfer y defnydd o gerbydau trydan, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. MF5-6	Mawrth 2021

Mesurau Llwyddiant
Cyflwr y ffyrdd (PAM/020, PAM/021 a PAM/022)
Nifer a laddwyd/anafwyd mewn damweiniau ar y ffyrdd (5.5.2.21)